Cynhyrchwyd y Datganiad Cwricwlwm i Gymru gan weithgor yn cynnwys aelodau o Gyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru (CWVYS). cymdeithas Cymru i Weithwyr Ieuenctid a Chymuned Amser-lawn (WAFTYCW), Cymdeithas Adysg Bellach a'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru (FEYSAW), Cyd Bwyllgor Addysg Cymru, a Fforwm Ieuenctid Cymru, yn dilyn cydnabod dilysrwydd datganiad ar wahan i Gymru yn ystod ail gynhadledd weinidogol Birmingham.

Cymeradwywyd gan bartneriaeth Gwaith Ieuenctid Cymru a Chyngor Ieuenctid Cymru

**Mai 1992**

# DATGANIAD Y CWRICWLWM GWAITH IEUENCTID AR GYFER CYMRU

**Bwriedir y Datganiad hwn i:**

- sefydlu prif ddibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru.
- Hysbysu'r rhai hynny y tu allan i'r gwasanaeth am dibenion hyn.
- darparu cy-ddealltwriaeth gyffredin o'r dibenion hyn.
- darparu fframwaith ar gyfer datblygu arfer a phenderfynu blaenoriaethau.
- creu ffordd o fesur y cynnydd tuag at gyflarni'r dibenion hyn.

**Ni fwriedir y Datganiad hwn i:**

- arwain at gwricwlwm unigol, penodol ac anhyblyg a fyddai'n rhwystro amrywiaeth neu'n cyfyngu ar fenter.

# DIBENION GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU

**Dibenion gwaith ieuenctid yng Nghymru yw:**

- hyrwyddo cyfle cyfartal i bob person ifanc er mwyn iddo gyflawni ei botensial fel unigolyn galluog ac fel aelod o grwpiau a chymunedau.
- rhoi cymorth i bobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion.
- cynorthwyo pobl ifanc i ddatblygu agweddau a sgiliau sy'n eu galluogi i wneud defnydd da o'u hadnoddau personol a'u hamser.

**Felly mae gwaith ieuenctid yn cynnig cyfle i bobl ifanc sy'n:**

- **ADDYSGOL** - yn galluogi pobl ifanc i sicrhau'r sgiliau, y wybodaeth a'r agweddau sy'n angenrheidiol i adnabod, amddiffyn a dilyn eu hawliau a'u cyfrifoldebau fel unigolion ac fel aelodau o grwpiau a chymunedau yn lleol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol.
- **CYFRANOGOL** - drwy berthynas wirfoddol lle mae pobl ifanc yn bartneriaid yn y prosesau dysgu a strwythurau gwneud penderfyniad sy'n effeithio ar eu bywydau a'u hamgylchedd hwy eu hunain yn ogystal â rhai pobl eraill.
- **GALLUOGOL** - yn galluogi pobl ifanc i ddeall a gweithredu ar y materion personol, cymdeithasol, a gwleydyddol sy'n effeithio ar ei bywydau, bywydau pobl eraill, ac ar y cymunedau maent yn rhan ohonynt.
- **MYNEGIADOL** - yn annog ac yn galluogi pobl ifanc i fynegi eu meddyliau, emosiynau, dyheadau a'u hunaniaeth diwylliannol drwy weithgareddau creadigol sy'n rhoi her, yn arbennig y rhai hynny sy'n cynyddu eu dealltwriaeth o ddwyieithrwydd, etifeddiaeth a diwylliant Cymru.

Dylid cynllunio'r cyfleoedd uchod i hybu cyfartalwch i bawb drwy herio gormes ac anghyfiawnder, o dderbyn y gwahaniaethau sy'n deillio o hil, rhyw, anabledd, oed a chrefydd, a chydnabod yr amrywiol ddiwylliannau a ieithoedd yng Nghymru.

# CYFLWYNO GWAITH IEUENCTID YNG NGHYMRU

Cyflwynir gwaith ieuenctid yng Nghymru drwy bartneriaeth rhwng mudiadau gwirfoddol ac awdurdodau addysg lleol yn gweithio gydai'i gilydd ac yn annibynnol i ddarparu neu hyrwyddo:

- rhaglenni addusgol anffurfiol a strwythuredig sy'n herio pobl ifanc ac yn hyrwyddo eu datblygiad personol ac ysbrydol, eu haddysg gymdeithasol a gwleidyddol.
- mannau a chysylltiadau y gall pobl ifanc fwynhau eu hunain ynddynt, teimlo'n ddiogel, teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi, rheoli mwy ar eu bywydau ac adnabod a gwrthsefyll dylanwadau niweidiol a all effeithio arnynt.
- mynediad i wybodaeth berthnasol, cyngor a chyfarwyddyd sy'n cynnwys amddiffyn hawliau pobl ifanc.

Cynorthwyir cyflwyno gwaith ieuenctid yng Nghymru gan ymchwil priodol i faterion a thueddiadau sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc yn arbennig, a gan  gydweithio gydag asiantaethau a gwasanaethau priodol y gellir harneisio eu gallu arbennig er mwyn hyrwyddo anghenion, diddordebau a hawliau pobl ifanc.

**BLAENORIAETHAU**

- Mae gwasanaeth ieuenctid yn agored i bob person ifanc rhwng 11-25, ond mae rhoi blaenoriaeth i'r grwp 13-19, y cyfnod pan fydd pobl ifanc yn dod yn oedolion.
- Penderfynir ar grwpiau a materion â blaenoriaeth iddynt yn genedlaethol, yn lleol ac/neu gan y mudiad a bydd yn seiliedig ar yregwyddorion o sicrhau mynediad a chyfle cyfartal.

**DARPARIAETH**

- Dylai math, dull a chymysgedd gwaith ieuenctid gael ei benderfynu yn genedlaethol, yn lleol a/neu gan y mudiad.
- Dylid ystyried sefydlu darpariaeth briodol mewn perthynas anghenion unigolion a grwpiau, canlyniadau a fyddai'n ddymunol a dibenion.  Gallai'r dulliau cyflwyno gynnwys:
    - gwaith yn seiliedig yn y ganolfan
    - canolfannau ar gyfer arbenigedd cwricwlwm
    - gwaith annibynnol
    - gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chyfarwyddyd
    - darpariaeth symudol
    - gwaith meithrin cyswllt
    - gwaith project
    - gwaith preswyl
    - darpariaeth wedi'i hanelu at grwpiau penodol

# MESUR CYNNYDD AC ASESU CANLYNIADAU

- Dylai Datganiad y Cwricwlwm Gwaith Ieuenctid ar gyfer Cymru ddarparu sail ar gyfer sefydlu meini prawf y cytunwyd arnynt y gellir mesur cynnydd wrthynt (gan fudiad, awdurdod, neu uned) a nodi canlyniadau penodol y gwaith.

- Dylid penderfynu ar feini prawf o'r fath ar bob lefel o fewn cyd-destun y ddarpariaeth.

- Mae'n ddyletswydd ar bob darparwr gwaith ieuenctid i sefydlu dulliau mesur cynnydd sy'n briodol i'r gwaith a wneir.

- Wrth asesu canlyniadau, dylai darparwyr gymryd i ystyriaeth yr anghenion dan sylw, yr adnoddau a ddefnyddir, y prosesau a fabwysiedir, a'r manteision penodol i bobl ifanc.

- Bydd y broses gynyddol o werthuso yn galluogi arfer gwaith ieuenctid i gael ei adnabod, a bydd yn cyfrannu at benderfynu ar Strategaethau gwaith ieuenctid yn y dyfodol.